Rhyfedd, rhyfedd gan angylion

Caneuon Ffydd: Rhif 446

Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,
rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd,
gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth
a Rheolwr popeth sydd
yn y preseb mewn cadachau
a heb le i roi'i ben i lawr,
eto disglair lu'r gogoniant
yn ei addoli'n Arglwydd mawr.

Pan fo Sinai i gyd yn mygu,
a sŵn yr utgorn ucha'i radd,
caf fynd i wledda dros y terfyn
yng Nghrist y Gair, heb gael fy lladd:
mae yno'n trigo bob cyflawnder,
llond gwagle colledigaeth dyn;
ar yr adwy rhwng y ddwyblaid
gwnaeth gymod drwy'i offrymu'i hun.

Efe yw'r Iawn fu rhwng y lladron,
efe ddioddefodd angau loes,
nerthodd freichiau'i ddienyddwyr
i'w hoelio yno ar y groes;
wrth dalu dyled pechaduriaid
ac anrhydeddu deddf ei Dad,
cyfiawnder, mae'n disgleirio'n danbaid
wrth faddau'n nhrefn y cymod rhad.

O f'enaid, gwêl y fan gorweddodd
pen brenhinoedd, awdwr hedd;
y greadigaeth ynddo'n symud,
yntau'n farw yn y bedd;
cân a bywyd colledigion,
rhyfeddod mwya' angylion nef:
gweld Duw mewn cnawd a'i gydaddoli
mae'r côr dan weiddi, "Iddo ef."

Diolch byth, a chanmil diolch,
diolch tra bo ynof chwyth,
am fod gwrthrych i'w addoli
a thestun cân i bara byth;
yn fy natur wedi'i demtio
fel y gwaela' o ddynol-ryw,
yn ddyn bach, yn wan, yn ddinerth,
yn anfeidrol, fywiol Dduw.

Yn lle cario corff o lygredd,
cyd-dreiddio â'r côr yn danllyd fry
i ddiderfyn ryfeddodau
iachawdwriaeth Calfarî;
byw i weld yr anweledig
fu farw ac sy nawr yn fyw;
tragwyddol anwahanol undeb
a chymundeb â fy Nuw.

Yno caf ddyrchafu'r enw
a osododd Duw yn Iawn,
heb ddychymyg, llen na gorchudd,
a'm henaid ar ei ddelw'n llawn;
yng nghymdeithas y dirgelwch
datguddiedig yn ei glwy',
cusanu'r Mab i dragwyddoldeb
heb im gefnu arno mwy.

ANN GRIFFITHS, 1776–1805

MYFYRDOD

Dyma glamp o emyn gan Ann Griffiths! Fe welwyd penillion ohono yma ac acw hyd ein llyfrau emynau, ond yn *Caneuon Ffydd* fe fentrwyd mynd ati i'w gosod i gyd gyda'i gilydd yn saith pennill fel y cafwyd nhw yn ysgriflyfr John Hughes, Pontrobert, a oedd yn aelod o'r seiat a gyfarfyddai ym Mhontrobert

gydag Ann. Lletyai am gyfnod yn Nolwar Fach, a daeth Ruth y forwyn yn wraig iddo ymhen amser. Iddo ef mae'n diolch ni am gadw llythyrau ac emynau Ann Thomas, Dolwar Fach, ar ein cyfer ni.

Y pennill cyntaf mewn gwirionedd sydd yn rhoi'r cysylltiad ag adran yr Adfent a'r Geni ac mae llawn cymaint o sôn am y croeshoelio a'r Pasg yma hefyd. Dyma un o gryfderau Ann yn sicr, sef ei golwg cyflawn ar Iesu Grist, yr un y bu rhagfynegi amdano, y gosodwyd rhagluniau ohono hefyd drwy'r Hen Destament, a ddaeth i'n plith: 'yn ddyn bach, yn wan, yn ddinerth', a oedd 'yn fy natur wedi'i demtio', a 'fu farw ac sy nawr yn fyw', ac a fydd i'w fwynhau yn llawn mewn gogoniant 'heb ddychymyg, llen na gorchudd' arno.

'Pethau yw'r rhain y mae angylion yn chwenychu edrych arnynt' (1 Pedr 1:12), meddai Pedr am yr iachawdwriaeth a drefnodd Duw ar gyfer pobl ar y ddaear. Mae rhyfeddod angylion yn cael lle pur amlwg gan Ann yma; ni allan nhw ddim ond rhyfeddu at y 'Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth' yn cael ei roi mewn lle mor wael â phreseb yr anifail. Dyma eu 'rhyfeddod mwya'' – 'gweld Duw mewn cnawd' a pharhau fel angylion i'w addoli yn ei ddarostyngiad oherwydd mai dyna eu swyddogaeth fel angylion.

Fel y canodd Ann o'r blaen (Rhif 337) am 'gladdu'r Atgyfodiad mawr', y paradocs gwyrthiol hwnnw, mae hi'n sôn yma eto am 'y greadigaeth ynddo'n symud, yntau'n farw yn y bedd'. Mae'r delweddu cyferbyniol hwn yn dreiddgar ac yn athronyddol ac yn cael ei gynnal trwy waith Ann, er mwyn mynegi ei rhyfeddod ei hun bod yr hwn 'y mae pob peth yn cydsefyll' ynddo (Col. 1:17) yn gallu, ac wedi dewis o'i fodd amlygu ei gariad tuag atom ni yn y cnawd. 'Mae'n syndod im feddwl pwy oedd ar y groes,' meddai Ann wrth fyfyrio ar fawredd Person Crist mewn llythyr at John Hughes. Cofiwn fod y llythyrau hyn yn cynnwys yr un profiadau ag a fynegir yn yr emynau ac yn rhoi llawer o gefndir i rediad ei meddwl wrth ffurfio ei hemynau. Fe esbonia hefyd yn yr un llythyr fel y mae myfyrio ar ei berson yn mynnu ei bod yn aros yn agos mewn cymundeb ag ef bob amser – '"Cusenwch y Mab rhag iddo ddigio"' (Salm 2:11–12, BWM) yw ei hysgrythur i egluro ei meddwl. Dyma'r ddelwedd hefyd ar ddiwedd ein hemyn: 'cusanu'r Mab i dragwyddoldeb heb im gefnu arno mwy'.

O sylweddoli pwy yw Iesu a myfyrio ar ei berson, mae cariad Ann yn ennyn fwyfwy tuag ato, a daw i weld na all hi gefnu arno byth.

GWEDDI

O Dad, mae cymaint imi ryfeddu ato ym mherson Iesu Grist; bydded fy rhyfeddod yn fwy na rhyfeddod angylion hyd yn oed, oherwydd mai er fy mwyn i y daeth i'n plith a gwneud cymod drwy'i offrymu'i hun. Paid â gadael imi gefnu arno, ond aros yn ei gymundeb byth mwy. Er mwyn y Mab. Amen.